OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 2662 (Cy.233)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) (Diwygio) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *12 Hydref 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *16 Hydref 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) (Diwygio) 2004 a deuant i rym ar 16 Hydref 2004.

### Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) 2000

**2.** Diwygir Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) 2000(**3**) fel a ganlyn.

(a) yn rheoliad 2(2) dileer y geiriau “IACS”;

(b) yn rheoliad 3(1) —

(i) dileer y diffiniadau o “cynllun cymorth IACS” ac “atodiad ALlFf”;

(ii) yn y diffiniad o “Rheoliad y Cyngor”, ar ôl y gair “Ewropeaidd” mewnosoder y geiriau canlynol, “, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) 41/2004”(**4**));

(**1**) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 1999 (1999/2788).
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2000/3294 (Cy.216), diwygiwyd gan O.S. 2001/3680 (Cy.301).
(**4**) O.J. Rhif L006, 10.01.2004, t.19.

(iii) yn y diffiniad o "Rheoliad y Cyngor 3508/92", ar ôl y geiriau "y Gymuned" mewnosoder y geiriau canlynol, ", fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) 495/2001"(**5**);

(iv) yn y diffiniadau o "ffermwr" a "daliad", yn lle'r geiriau "Erthygl 1(4)" rhodder y geirau "Erthygl 1(3)";

(v) yn y diffiniad o "dibenion perthnasol", yn lle'r geiriau "Erthyglau 13 i 24 (yn gynhwysol)" rhodder y geiriau "Erthyglau 13 i 20, Erthyglau 22 i 24"; a

(vi) yn y diffiniad o "y Rheoliad Datblygu Gwledig", ar ôl y geiriau "Rheoliadau penodol" mewnosoder y geiriau canlynol ", fel y'u diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) 1783/2003"(**6**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**)

*D. Elis-Thomas*
12 Hydref 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) O.J. Rhif L072, 14.3.2001, t.6. Diddymwyd Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 3508/92 gan Erthygl 153(1) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1782/2003 (O.J. Rhif L270, 21.10.2003, t.1), ond mae'n parhau i fod yn gymwys i geisiadau am daliadau uniongyrchol mewn perthynas â'r blynyddoedd calendr cyn 2005 yn rhinwedd yr Erthygl honno.
(**6**) O.J. Rhif L270, 21.10.2003, t.70.
(**7**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, a fydd yn dod i rym ar 16 Hydref 2004, yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modwleiddio) (Cymru) 2000 (O.S. 2000/3294 (Cy.216), fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2001/3680 (Cy.301)) ("y prif Reoliadau").

Mae "modwleiddio" yn ymwneud â gwneud didyniad o'r taliadau sy'n ddyledus o dan gynlluniau cymorth uniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredin ac ailddyranu'r swm hwnnw a ddidynnwyd fel cymorth i fesurau datblygu gwledig. Nodir canran y didyniad ar gyfer taliadau'r cynlluniau cymorth uniongyrchol yn rheoliad 4(3) o'r prif Reoliadau.

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn adlewyrchu'r diwygiad i Reoliad y Cyngor (EC) 1259/1999 (O.J. Rhif L160, 26.6.1999, t.113) gan Reoliad y Comisiwn (EC) 41/2004 (O.J. Rhif L006, 10.01.2004, t.19), sy'n disodli'r Atodiad i'r Rheoliad y Cyngor hwnnw.

Effaith hyn yw y bydd taliadau o dan y cynlluniau cymorth uniongyrchol a gyflwynir gan Deitl IV o Reoliad y Cyngor (EC) 1782/2003 (O.J. Rhif L270, 21.10.2003, t.1) (premiwm godro a thaliadau ychwanegol, gwenith caled, cnydau protein, starts tatws, cnau a chnydau ynni) yn ddarostyngedig i fodwleiddio yng Nghymru, yn ychwanegol at y cynlluniau cymorth uniongyrchol sydd eisoes yn ddarostyngedig i fodwleiddio

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau i ddiweddaru'r prif Reoliadau i adlewyrchu mân ddiwygiadau a diwygiadau technegol eraill i offerynnau eraill gan y Gymuned.

Fe ddarparwyd arfarniad rheoliadol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, a gellir cael copi oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.